# Dadorchuddio Patagonia: Eisteddfota gan Nans Rowlands

# Y Cymro, Ionawr 20, 2001

"O 'steddfod i 'steddfod." 'Dach chi'n cofio Huw Edward Jones yn canu ers talwm?

Dyna fy hanes innau ers i mi gyrraedd yma ar Fai 1af llynedd. Erbyn hyn rydw i wedi bod mewn saith eisteddfod ac wedi beirniadu adrodd, llenyddiaeth, canu a chredwch neu beidio, dawnsio gwerin.

Prin dair wythnos ar ôl i mi gyrraedd yma, cefais fy hun ar fws gyda chôr Gaiman yn gwibio i fyny tua'r Andes ac Eisteddfod Trevelin. Nid mynd yno i wrando r'on i, o na. Roedd syniadau eraill gan Marli Pugh de Villoria, arweinyddes feistrolgar côr Gaiman. Paciwyd sgert ddu, laes a blows goch i mi. Wrth gwrs, ron i'n gorfod gwybod y caneuon i gyd yn ddigon da ar ôl pump ymarfer.

Ar ôl noson o gwsg mewn caban pren yn wynebu mynyddoedd Yr Andes a Gorsedd y Cwmwl, dyma fynd draw i'r Eisteddfod. Ymarfer mewn ysgol ac yna ymlaen i Neuadd Dewi Sant lle cynhelir yr Eisteddfod yn flynyddol.

Agor y gweithgareddau gyda chyd-ganu anthem genedlaethol Yr Ariannin. Llond lle o bobl a'r Gymraega'r Sbaeneg i'w clywed ar yn ail o'r llwyfan, ac ar lawr y neuadd ymysg y gynulleidfa. Felly hefyd y cystadleuthau – canu, adrodd, dawnsio gwerin, y cadeirio yn gyfangwbl yn y ddwy iaith. Cadair am farddoniaeth yn yr iaith Gymraeg a medal am farddoniaeth yn yr iaith Sbaeneg. At hyn roedd seiniau'r gitâr a'r dawnsio tango yn gwneud i mi sylweddoli nad yn Llandderfel, Llanuwchllyn na Llangwm r'on i.

**Cyfarfod**

Rhwng cyfarfod y pnawn a chyfarfod yr hwyr aeth pawb allan i lenwi'r tai te at yr ymylon. I Dŷ Tê Nain Maggie es i a bwyta digon i roi cryn straen ar fotwm y sgert ddu.

Yn ôl i gyfarfod yr hwyr a mwynhau bod yn aelod o gôr enillodd pob cystadleuaeth. Ar ôl canu Hen Wlad Fy Nhadau allan â phawb i neuadd fawr i fwy o wledda, canu a dawnsio hyd oriau mân y bore.

Cymanfa Ganu fore drannoeth yng nghapel Bethel, Trevelin. Asado i ddilyn. Does 'run eisteddfod yn Y Wladfa yn gyflawn heb asado. Dyna'r cyntaf o amryw i fi flasu ers hynny. Mae'n aros yn ar fy nghof, ynghyd â'r canu gras bwyd mewn cytgord pedwar llais.

Yn ôl am Giaman a phawb yn braf eu byd. Mewn un penwythnos ro'n i wedi bod mewn eisteddfod, tŷ te, asado a chymanfa ganu. Ro'n i wedi yfed mate, wedi gweld guanaco a mynyddoedd Yr Andes.

Felly beth oedd yn weddill? Ar Fai'r 27ain roedd Micro Eisteddfod yn cael ei chynnal yn Hen Gapel Bethel, Gaiman. Myfyrwyr Coleg Camwy oedd yn trefnu'r cyfan. Dyna i chi drefn - codi arian ar gyfer gwobrau, arwain yn y ddwy iaith eto a chystadlu brwdfrydig. Cyflwynir gwobr

o felysion mewn bag bach wedi ei wnïo o sidan i bob cystadleuydd. Roedd urddas yr ieuenctid wrth fynd o gwmpas eu gwaith yn amheuthun ac yn wir esiampl i do ifanc Yr Hen Wlad.



Ar Orffennaf 1af roedd Eisteddfod Fach Dewi Sant, Trelew yn cael ei chynnal yn Neuadd Dewi Sant yng nghanol y ddinas. Y tro hwn beirniadu'r llenyddiaeth ro'n i ac felly, gan fod y gwaith wedi ei wneud ymlaen llaw, mi ges eistedd yn ôl a mwynhau'r gweithgareddau. Roedd fy nosbarth Cymraeg sy'n cwrdd ar b'nawn Llun yn Nhrelew yn cyd-adrodd rhan o 'Buchedd Garmon' gan Saunders Lewis.

Mini Eisteddfod Bethel ar Awst 18fed oedd y nesaf. Cynhaliwyd hon eto yn yr Hen Gapel Bethel, Gaiman. Y lle'n llawn a chalonnau mamau a hyfforddwyr yn curo.

Ces "barchus arswydus swydd" yn Eisteddfod Ieuenctid Y Wladfa. Wedi i'r beirniad cerdd dynnu'n ôl ar y funud olaf bu'n rhaid i mi gamu mewn i'r bwlch. Profiad nerfus iawn oedd hwn a'r cyfrifoldeb yn pwyso'n drwm ar fy ysgwyddau.

Ar ôl deuddydd o gystadlu rhagbrofion a llwyfan yn y gampfa yn Gaiman, ro'n i bron methu symud! Cafwyd safon cystadlu arbennig o uchel a'r dewis o ganeuon gan y pwyllgor cerdd yn wych. Os oes rhywun o BBC Radio Cymru yn darllen hwn, beth am roi cyfle i Eisteddfod Ieuenctid Y Wladfa gael ei chlywed am newid? Drannoeth yr Eisteddfod roedd Cymanfa Ganu wahanol iawn yng Nghapel Bethel Gaiman. Rhythmau gwahanol a seiniau gitâr yn gyfeiliant i'r canu.

Does dim rhaid sôn am Eisteddfod Fawr Y Wladfa gynhaliwyd yn ystod penwythnos olaf Hydref yn Nhrelew. Gobeithio i chi fwynhau'r arlwy a chyflwyno naturiol Dafydd Du o'r pigion ddarlledwyd ar Radio Cymru. Bydd datganiad Juan (Siôn) Davies o'r 'Indio' gan Ariel Hughes de Sarda yn aros yn hir yn y cof.

Rhoddodd Bechgyn y Bwthyn Bach foddhad mawr i'r gynulleidfa gyda'u dehongliad o 'Maradona' gan Selwyn Gruffydd. A beth am y corau? Does dim cythraul canu yn Y Wladfa.

Ond côr Gaiman enillodd gystadleuaeth y côr meibion, yr anthem a'r brif gystadleuaeth gorawl. Felly chafodd neb gam.

Os ydych chi wedi bod yn cyfrif yn fanwl, mae un eisteddfod ar ôl, a honno'r bwysicaf o'r cyfan. Ar Ragfyr 19eg roedd Gwersyll Cymraeg Bryn Gwyn. Gabriel Restuchia a Carlos Blasetti oedd yn trefnu, a ninnau'n cynorthwyo gyda'r dysgu.

**Gwersyll**

I gloi gweithgareddau'r gwersyll ar ôl asado bendigedig Carlos, cafwyd Eisteddfod Dwp. Roedd tri thîm wedi bod yn cystadlu a chasglu pwyntiau yn ystod tridiau'r gwersyll, a'r eisteddfod oedd yn mynd i benderfynu pwy oedd yn ennill. Roedd tyndra yn yr awyr yn ystod cystadleuaeth 'garglo' Sosban Fach, yr 'adroddiad dan bump oed' a'r cadeirio.



Bu'n rhaid galw'r ffug enw deirgwaith cyn i Dario Evans sefyll i gael ei gadeirio gyda chlod ac anrhydedd yr Eisteddfod. Yr 'asador' oedd y cleddyf a chlywyd bonllefau 'Heddwch' yn atseinio trwy'r Dyffryn. Nid yn unig roedd hon yn eisteddfod o rowlio chwerthin ond roedd hi'n uniaith Gymraeg hefyd, a'r ieuenctid unwaith eto yn dangos aeddfedrwydd eithriadol a'r gallu i ysgwyddo cyfrifoldeb yn hollol ddi-ffwdan a naturiol.

Mae ychydig o saib o'r eisteddfodau ar hyn o bryd ond bu Nosweithiau Llawen diwedd tymor pob ysgol, coleg a dosbarth Cymraeg yn y cyfnod cyn y Nadolig. Ar ôl y flwyddyn newydd 'falle bydd cyfle i roi traed fyny a gorffwys ychydig. Na, 'dw i newydd gofio, mae'r côr yn canu ym Madryn ac mae ... O wel, tan tro nesa.